# Atodiad 2

# Adroddiad Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd

YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

**Dyddiad Cyflwyno:** 2022-10-14
**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg

# Cynnwys


| | Tudalen |
| --- | --- |
| Cyflwyniad | 4 |
| Methodoleg | 4 |
| Ymatebion i'r holiaduron | 5 |
| Categoreiddio Llwybrau (adran 2.4) | 6 |
| Grantiau (adran 2.6) | 10 |
| Datrys Anghydfod (adran 2.8) | 12 |
| Gwneud Defnydd o Dechnoleg (adran 2.11) | 13 |
| Cryfhau Cysylltiadau gyda Mudiadau ac Unigolion (adran 2.12.5) | 15 |
| Llwybrau Aml-ddefnydd (adran 4.6) | 17 |
| Defnydd o'r Rhwydwaith Lonydd Glas gan Farchogwyr (adran 4.6) | 19 |
| Sylwadau Pellach | 20 |

# 1. Cyflwyniad

Mae hon yn adroddiad wedi'i greu i ddal ymatebion yr holiadur a dderbyniwyd.

Dogfen strategol yw'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol er mwyn cynllunio ar gyfer rheoli, datblygu a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy. Bydd y CGHT yn gosod fframwaith ar gyfer adnabod, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'w rhwydwaith hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad er budd cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, unigolion sydd â phroblemau symudedd ac eraill.

Mae Hawliau Tramwy yn cynnwys llwybrau troed, marchogaeth a chilffyrdd (lonydd cul fel arfer, yn aml heb wyneb), ond nid ydynt yn cynnwys ffyrdd.

# 2.Methodoleg

Er mwyn canfod barn trigolion Gwynedd ar y CGHT drafft defnyddiwyd holiadur fel dull casglu gwybodaeth.

Roedd yr holiadur yn agored o 27ain o Fehefin hyd at 30ain o Fedi 2022.

Fe osodwyd holiadur digidol ar dudalen 'Dweud eich dweud', sef safle ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor, er mwyn casglu barn y cyhoedd cyffredinol.

Cysylltwyd gyda Phanel Trigolion y Cyngor gyda holiadur er mwyn canfod eu barn nhw.

Darparwyd copïau papur o'r holiadur ym mhob un o Siopau Gwynedd ynghyd a'r llyfrgelloedd ar draws y sir yn ogystal.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo trwy'r dudalen 'Dweud eich dweud', a hefyd trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Facebook a Thrydar. Roedd yr holiadur hefyd yn cael ei hybu gan Barc Cenedlaethol Eryri.

Derbyniwyd ymatebion drwy'r post a drwy holiaduron ar-lein.

# 3. Ymatebion i’r holiaduron

Bydd y rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi ymatebion i’r holiaduron.

## 3.01 Sut derbyniwyd ymatebion?

Derbyniwyd cyfanswm o 296 o ymatebion dilys i’r holiadur.

Roedd y rhan fwyaf (91.9%) o’r ymatebwyr yn ateb fel unigolyn, gyda 6.1% yn ateb ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Fel unigolyn | 272 | 91.6 |
| Ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes | 18 | 6.1 |
| Dim ateb | 6 | 2.0 |
| Cyfanswm | 296 | 100.0 |

Nodir isod y sefydliadau a ymatebwyd:

Cyngor cymuned Llanbedr
Dim ateb
Cyngor Tref Caernarfon
NFU Cymru
Bryncroes
Aberdyfi Community Council
Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru
Cyngor Cymuned Llanwnda
Snowdonia Slate Trail Trust
Llanegryn Community Council
Cyngor Cymuned Betws Garmon
Cyngor Cymuned Pistyll
Grŵp cerdded Pen-Y-Groes, Dyffryn Nantlle. 10 o’r gloch bob dydd Iau o’r Ganolfan Hamdden
Eryri Ramblers walks secretary
Fforwm Mynediad Arfon Dwyfor a Fforymau gogledd a de Parc Eryri (yn gyfunol) // Arfon Dwyfor & Snowdonia Local Access Forums – north and south combined
Rhodwyr Llyn Ramblers representing 140 regular walkers mostly based in Dwyfor
Meirionnydd Ramblers
Cyngor Cymuned Llanengan

## Categoreiddio Llwybrau (adran 2.4)

Er bod beirniadaeth o'r drefn categoreiddio bresennol, yn y tymor byr dyma'r drefn fwyaf ymarferol sy'n caniatáu bod y llwybrau mwyaf poblogaidd mewn cyflwr boddhaol.

Dylid cydnabod nad oes modd rhoi sylw llawn i bob llwybr yng Nghategorïau 1 a 2*, a bod diffyg cynnal a chadw ar weddill y rhwydwaith yn arwain at ôl-groniad o waith a chostau os ydynt i'w hadfer i safon dderbyniol.

Bydd arolwg o gyflwr hawliau tramwy Gwynedd yn cael ei gynnal i'w ddefnyddio i sefydlu gwaelodlin y gellir ei ddefnyddio ar gyfer mesur perfformiad, cynorthwyo gyda'r gwaith o ail-gategoreiddio llwybrau ac i flaenoriaethu prosiectau ar gyfer cyllid grant. Bydd hyn yn ymrwymiad hir dymor a ni ellir ei gyflawni'n llawn gyda'r adnoddau staff presennol, ymdrechir i ddefnyddio gwirfoddolwyr neu staff dros dro i gyflymu'r gwaith.

Bwriedir ail asesu categorïau llwybrau a'i diweddaru os oes angen i greu rhwydwaith sy'n adlewyrchu'n well anghenion cymunedau'r Sir. Gwneir y gwaith ar y cyd â Chynghorau Cymuned a Thref gyda mewnbwn y Parc Cenedlaethol, Fforymau Mynediad Lleol a grwpiau defnyddwyr.

*Llwybrau Categori 1: Llwybrau sy'n hwyluso symudiad pobl. Bydd y rhain fel arfer yn cael defnydd sylweddol neu'n ffurfio cyswllt mewn trefi, pentrefi neu rhwng cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus, meysydd parcio ac atyniadau hamdden.

Llwybrau Categori 2: Llwybrau poblogaidd a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pleser gan gynnwys llwybrau o amgylch cymunedau, teithiau cylchol, mynediad at draethau neu lwybrau a hyrwyddir.

## 3.02 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid parhau gyda'r drefn bresennol o gategoreiddio hawliau tramwy?

Gweler o'r tabl isod fid 67.9% (N=201) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid parhau gyda'r drefn bresennol o gategoreiddio hawliau tramwy, tra bod 17.2% (N=51) ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac 12.5% (N=37) yn anghytuno.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 9 | 32.8 |
| Cytuno i raddau | 104 | 35.1 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 51 | 17.2 |
| Anghytuno i raddau | 20 | 6.8 |
| Anghytuno'n gryf | 17 | 5.7 |
| Dim ateb | 7 | 2.4 |
| Cyfanswm | 296 | 100.0 |

## 3.03 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Gofynnwyd i'r rhai a nodwyd eu bod yn cytuno'n gryf, cytuno i raddau a ddim yn cytuno nac yn anghytuno nodi unrhyw sylw pellach. O'r 252 ymateb posib, cafwyd sylw pellach gan 70 ymatebydd. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Angen pob llwybr i fod yn agored i bawb *(cerddwyr, beicwyr, reidio ceffylau, mynediad i'r anabl)* / Peidio blaenoriaethu | 18 | 25.7 |
| Categorïau hawdd i'w defnyddio - e.e. lliw (colour-coded categories) | 11 | 15.7 |
| Peidio anwybyddu llwybrau llai poblogaidd | 9 | 12.9 |
| Cytuno gyda'r cynigon | 8 | 11.4 |
| Peidio newid dim | 7 | 10.0 |
| Angen gwella cynnal a chadw'r llwybrau | 7 | 10.0 |
| Posib cyfuno rhai categorïau ar rhai llwybrau | 5 | 7.1 |
| Pryderon fod perchnogion tir yn tynnu arwyddion lawr / atal mynediad | 3 | 4.3 |
| Blaenoriaethu Llwybrau penodol | 2 | 2.9 |
| Gweithredu ar gamddefnydd o'r tramwy | 1 | 1.4 |
| Llwybrau Beicio Mynydd Dynodedig | 1 | 1.4 |
| Cynnwys Slate Trail yng nghategori 1 | 1 | 1.4 |
| Blaenoriaethu Llwybrau Pellter Hir | 1 | 1.4 |
| Angen ail-edrych ar ba ffordd mae rhai llwybrau yn mynd (e.e. Datblygiadau diweddar yn agor i rai llwybrau) | 1 | 1.4 |
| Sicrhau fod Sat Navs ddim yn gyrru twristiaid lawr rhai lonydd | 1 | 1.4 |
| Amherthnasol i'r Cwestiwn | 7 | 10.0 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 70* | | |

## 3.04 Oes gennych syniadau ynglŷn â sut gellir blaenoriaethu gwaith ar y rhwydwaith?

Gofynnwyd i'r rhai a nodwyd eu bod yn anghytuno i raddau neu anghytuno'n gryf os oedd ganddynt syniadau ynglŷn â sut gellir blaenoriaethu gwaith ar y rhwydwaith. O'r 37 ymateb posib, cafwyd sylw pellach gan 30 ymatebydd. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cynnal a Chadw pob llwybr (pob categori) | 9 | 30.0 |
| Cadw arolwg manwl a chyson o bob llwybr | 4 | 13.3 |
| Cyflogi mwy o swyddogion / mwy o gyllideb | 3 | 10.0 |
| Dileu rhai llwybrau er mwyn rhoi sylw i eraill | 2 | 6.7 |
| Atal tirfeddianwyr rhag rhwystro mynediad | 2 | 6.7 |
| Gwneud y categorïau llwybr yn fwy clir | 2 | 6.7 |
| Uwchraddio categori rhai llwybrau i by-ways neu bridleways | 1 | 3.3 |
| Blaenoriaethu llwybrau reidio ceffylau | 1 | 3.3 |
| Cynghorau Cymuned i gymryd mwy o berchnogaeth | 1 | 3.3 |
| Blaenoriaethu rhai a defnyddir gan gerbydau / llwybrau cylchol | 1 | 3.3 |

| | | |
|---|---|---|
| Amherthnasol i'r cwestiwn | 4 | 13.3 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 30* | | |

## 3.05 Sut fyddech yn mynd ati i adolygu a diweddaru'r drefn categoreiddio a pwy ddylid fod yn rhan o'r gwaith yma?

Cafwyd ymateb gan 119 unigolyn. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Creu grŵp gyda chyfuniad o rhanddeiliaid / ymgynghoriad lleol ar lwybrau | 31 | 26.1 |
| Defnyddiwr Llwybrau / Gwirfoddolwyr Lleol / Grwpiau Cerdded | 25 | 21.0 |
| Cynghorau Cymuned | 17 | 14.3 |
| Ymgynghoriad arall ar ddefnydd llwybrau / Adolygu'r categorïau | 10 | 8.4 |
| Arolygon o'r awyr (Aerial surveys) / defnyddio drone / mapio digidol | 9 | 7.6 |
| Cynnwys Tirfeddianwyr | 7 | 5.9 |
| Gwella arwyddion / marcio'r llwybrau | 7 | 5.9 |
| Y Cyngor i beidio anwybyddu pryderon / cwynion am lwybrau / cymryd mwy o berchnogaeth | 6 | 5.0 |
| Cyllid ychwanegol / staff ychwanegol | 4 | 3.4 |
| Cynnal a Chadw pob llwybr | 4 | 3.4 |
| Egluro'r gwahaniaeth rhwng categorïau yn well | 3 | 2.5 |
| Grwpiau Cymunedol | 2 | 1.7 |
| Dim creu mwy o lwybrau | 2 | 1.7 |
| Adolygu'r speed limit ar rai o'r llwybrau | 1 | 0.8 |
| Treth Twristiaid | 1 | 0.8 |
| Dim categoreiddio llwybrau - pob un yn bwysig | 1 | 0.8 |
| Blaenoriaethu teithio / llwybrau cylchol | 1 | 0.8 |
| Blaenoriaethu'r llwybrau gyda'r mwyaf o ddefnydd | 1 | 0.8 |
| Young Offenders i neud gwaith cynnal a chadw | 1 | 0.8 |
| Amherthnasol i'r cwestiwn | 9 | 7.6 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 119* | | |

## Grantiau (adran 2.6)

Mae'r grantiau sydd ar gael i wella'r rhwydwaith llwybrau yn blaenoriaethu'r canlynol:

- Uwchraddio pontydd a strwythurau;
- Gwneud llwybrau yn fwy hygyrch;
- Llwybrau aml ddefnydd;
- Prosiectau sy'n hwyluso mynediad at natur.

### 3.06 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r blaenoriaethau yma ar gyfer defnyddio cyllid grant?

Gweler fod bron i dri chwarter o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r blaenoriaethau uchod (72.6%, N=215). Nododd 9.1% (N=27) o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno gyda'r blaenoriaethau, tra bod 6.4% (N=19) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 119 | 40.2 |
| Cytuno i raddau | 96 | 32.4 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 19 | 6.4 |
| Anghytuno i raddau | 13 | 4.4 |
| Anghytuno'n gryf | 14 | 4.7 |
| Dim ateb | 35 | 11.8 |
| Cyfanswm | 296 | 100.0 |

### 3.07 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Nododd 112 o ymatebwyr sylw pellach. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynnal a chadw llwybrau presennol | 28 | 25.0 |
| Llwybrau i reidio ceffylau i gael eu cynnwys | 12 | 10.7 |
| Mynediad i natur / Gwarchod Natur | 9 | 8.0 |
| Mynediad i bawb | 9 | 8.0 |
| Arwyddion gwell | 8 | 7.1 |
| Cyfleusterau / Mynediad i'r anabl | 7 | 6.3 |
| Cyswllt rhwng pentrefi | 6 | 5.4 |
| Gwella pontydd a strwythurau | 6 | 5.4 |
| Eisiau llwybrau cerdded a beicio ar wahân | 5 | 4.5 |
| Defnyddio technoleg / digidol i hyrwyddo'r llwybrau | 4 | 3.6 |
| Cytuno gyda'r argymhellion | 3 | 2.7 |
| Cysidro anghenion y defnyddwyr i gyd | 2 | 1.8 |
| Mwy o finiau ar gael | 2 | 1.8 |
| Cydlynydd Gwirfoddoli | 2 | 1.8 |
| Ymgynghoriad Cymunedol gyda'r holl rhanddeiliaid | 2 | 1.8 |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn gyfrifoldeb ar y tirfeddianwyr | 1 | 0.9 |
| Ffyrdd Gwyrdd | 1 | 0.9 |
| Gwneud mynediad yn anodd i feiciau modur | 1 | 0.9 |
| Mwy o fapiau ar gael | 1 | 0.9 |
| Mynediad / croesi diogel wrth ysgolion | 1 | 0.9 |
| Amherthnasol i'r cwestiwn | 16 | 14.3 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 112* | | |

## Datrys Anghydfod (adran 2.8)

Ymdrechir i ddatrys anghydfod drwy drafod a negodi gyda pherchnogion tir a budd ddeiliaid. Os nad oes dewis ond i gymryd camau gorfodaeth ffurfiol, blaenoriaethir ymdrech ar lwybrau categori 1 a 2.

### 3.08 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid blaenoriaethu gorfodaeth ar lwybrau categori 1 a 2?

Gweler o'r tabl isod fod 67.6% (N=200) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid blaenoriaethu gorfodaeth ar lwybrau categori 1 a 2. Roedd 15.5% (N=46) yn anghytuno ac 14.2% (N=42) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 115 | 38.9 |
| Cytuno i raddau | 85 | 28.7 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 42 | 14.2 |
| Anghytuno i raddau | 18 | 6.1 |
| Anghytuno'n gryf | 28 | 9.5 |
| Dim ateb | 8 | 2.7 |
| Cyfanswm | 296 | 100.0 |

### 3.09 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Cafwyd sylw ychwanegol gan 79 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Pob categori llwybr (o fewn cyfyngiadau ariannol) | 20 | 25.3 |
| Pryderon am effaith hyn ar rai Cymunedau | 1 | 1.3 |
| Cytuno gyda'r argymhelliad | 8 | 10.1 |
| Blaenoriaethu amcanion y Cyngor nid tirfeddianwyr | 1 | 1.3 |
| Gorfodaeth yn cael ei wneud ar lefel lleol yn barod | 1 | 1.3 |
| Datrys y broblem cyn gorfodaeth os bosib | 8 | 10.1 |
| Ystyried yr effaith ar ffermwyr / tirfeddianwyr | 9 | 11.4 |
| Cyfrifoldeb statudol y Cyngor i ddelio gyda phob llwybr dim rhai categorïau yn unig | 3 | 3.8 |
| Tirfeddianwyr (a phobl eraill) yn gwybod does dim cosb os nad yw'r llwybr yng nghategori 1 neu 2 | 8 | 10.1 |
| Tirfeddianwyr sy'n troseddu yn aml | 13 | 16.5 |
| Angen parchu barn y tirfeddianwyr | 1 | 1.3 |
| Bridleways yn bwysig hefyd | 5 | 6.3 |
| Mynediad i'r cyhoedd sydd bwysicaf dim categori llwybr | 12 | 15.2 |
| Sicrhau gorfodaeth yn bwysig | 3 | 3.8 |
| Cynnig mai cyfrifoldeb Cynghorau Cymuned yw Gorfodaeth | 1 | 1.3 |
| Angen gwella arwyddion | 1 | 1.3 |
| Dim barn / Amherthnasol i'r cwestiwn | 7 | 8.9 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 79* | | |

## Gwneud Defnydd o Dechnoleg (adran 2.11)

Mae'n angenrheidiol bod y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gwneud defnydd o dechnoleg sy'n caniatáu i swyddogion i weithio'n effeithiol ac i ymateb yn effeithlon i gwynion gan y cyhoedd. Bydd systemau presennol gan gynnwys y wefan yn cael eu hadolygu a'u ddiweddaru.

### 3.10 Ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r bwriad i annog y cyhoedd i wneud rhagor o ddefnydd o wefan Cyngor Gwynedd ar gyfer cysylltu ar faterion mynediad?

Roedd 80.7% (N=239) o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r bwriad i annog y cyhoedd i wneud rhagor o ddefnydd o wefan Cyngor Gwynedd ar gyfer cysylltu ar faterion mynediad. Roedd 5.4% (N=16) yn anghytuno gyda 11.5% (N=34) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 150 | 50.7 |
| Cytuno i raddau | 89 | 30.1 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 34 | 11.5 |
| Anghytuno i raddau | 12 | 4.1 |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 1.4 |
| Dim ateb | 7 | 2.4 |
| Cyfanswm | 296 | 100.0 |

### 3.11 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Cafwyd sylw ychwanegol gan 116 o ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno gyda'r argymhelliad | 30 | 25.9 |
| Pryderon gallu rhai i ddefnyddio'r we / technoleg (pryderon am yr henoed) | 24 | 20.7 |
| Angen ffurf oddi ar y we i adrodd materion hefyd (e.e. Ffon neu wyneb i wyneb) | 21 | 18.1 |
| Systemau ar y we yn gwneud hi'n anodd siarad gyda / cael ymateb gan swyddogion y Cyngor | 16 | 13.8 |
| Taflenni ar y we yn dangos y llwybrau | 11 | 9.5 |
| Angen bod yn hawdd i'w ddefnyddio | 11 | 9.5 |
| Angen sicrhau fod y Cyngor yn ymateb i bob un | 9 | 7.8 |
| Porth cofnodi materion ar-lein | 8 | 6.9 |
| Angen cadw manylion ar y we yn hygyrch | 6 | 5.2 |
| Angen pwynt cyswllt i'r cyhoedd | 3 | 2.6 |
| Defnyddio drone i wneud arolygon o'r llwybrau | 2 | 1.7 |
| Y broblem fwyaf yw sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud ar y llwybrau | 2 | 1.7 |
| Cynnwys Cynghorau Cymuned | 1 | 0.9 |
| Pryderon y bydd y Cyngor yn cael llawer mwy o sylwadau diangen | 1 | 0.9 |

| | | |
|---|---|---|
| Anghytuno gyda'r argymhelliad | 1 | 0.9 |
| Y gallu i uwchlwytho lluniau a fideos o'r llwybrau yn ddefnyddiol | 1 | 0.9 |
| Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn well | 1 | 0.9 |
| Defnyddio apps fel Strava i weld pa lwybrau sy'n boblogaidd | 1 | 0.9 |
| Amherthnasol i'r cwestiwn | 4 | 3.4 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad.  Enwadur = 116* | | |

## Cryfhau Cysylltiadau gyda Mudiadau ac Unigolion (adran 2.12.5)

Bydd y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn adnabod cyfleoedd i ymestyn a chryfhau cysylltiadau gyda mudiadau ac unigolion sy'n awyddus i wirfoddoli ac yn ceisio cyllid er mwyn cefnogi'r gwaith a wneir ganddynt.

## 3.12 Sut gall y Gwasanaeth Cefn Gwlad annog rhagor o wirfoddolwyr i gyfrannu tuag at y gwaith o gynnal hawliau tramwy?

Cafwyd sylw gan 174 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Hysbysebu'r cyfleoedd i wirfoddoli | 49 | 28.2 |
| Cysylltu efo grwpiau addas (e.e. Grwpiau Cerdded, Cyngor Cymuned) | 40 | 23.0 |
| Defnyddio cyfryngau cymdeithasol | 36 | 20.7 |
| Hysbysebu'r cyfleoedd mewn papurau lleol / leaflets ayyb | 16 | 9.2 |
| Sicrhau fod buddiannau i'r gwirfoddolwyr | 15 | 8.6 |
| Ymgysylltu ag ysgolion / clybiau ieuenctid | 14 | 8.0 |
| Dal angen swyddogion i reoli gwirfoddolwyr | 13 | 7.5 |
| Angen ei reoli ar lefel lleol, cymunedau i gymryd perchnogaeth | 12 | 6.9 |
| Marchnata'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud / gwybodaeth am beth sydd angen ei wneud | 10 | 5.7 |
| Rhoi'r cyfarpar sydd eu hangen i wirfoddolwyr wneud y gwaith | 9 | 5.2 |
| Anghytuno gyda defnyddio gwirfoddolwyr | 8 | 4.6 |
| Meithrin cysylltiadau gydag amaeth | 8 | 4.6 |
| Rhaid i'r gwirfoddolwyr fod yn gymwysedig | 8 | 4.6 |
| Ystod eang o amseroedd gwahanol i wirfoddoli | 5 | 2.9 |
| Diwrnod agored i wirfoddolwyr | 2 | 1.1 |
| Cynnal hyfforddiant am ddim | 1 | 0.6 |
| Bod yn gynhwysol | 1 | 0.6 |
| Anodd defnyddio gwirfoddolwyr oherwydd materion yswiriant ayyb | 1 | 0.6 |
| Treialu defnyddio gwirfoddolwyr ar rhai llwybrau | 1 | 0.6 |
| Community Service | 1 | 0.6 |
| Busnesau sy'n elwa o'r llwybrau i gyfrannu | 1 | 0.6 |
| Gwirfoddolwyr angen sicrhad fod y gwaith cynnal a chadw am barhau am amser | 1 | 0.6 |
| Sicrhau fod trawstoriad o bob math o ddefnyddwyr o'r llwybrau | 1 | 0.6 |
| Amherthnasol i'r cwestiwn | 8 | 4.6 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 174* | | |

## 3.13 A ydych yn aelod o fudiad sy'n awyddus i gyd-weithio gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor?

Roedd 17.6% (N=52) o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn aelod o fudiad sy'n awyddus i gyd-weithio gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 52 | 17.6 |
| Nac ydw / ddim yn berthnasol | 231 | 78.0 |
| Dim ateb | 13 | 4.4 |
| Cyfanswm | 296 | 100.0 |

## Llwybrau Aml-ddefnydd (adran 4.6)

Bydd y Cyngor yn ffafrio gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n cynnig darpariaeth aml-ddefnydd.*

*Llwybrau aml-ddefnydd: Llwybrau i gerddwyr, beicwyr, marchogwyr sydd hefyd yn diwallu gofynion gyda phroblemau symudedd.

## 3.14 Ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid blaenoriaethu darparu llwybrau aml-ddefnydd ychwanegol?

Nododd y 69.6% (N=206) eu bod yn cytuno y dylid blaenoriaethu darparu llwybrau aml-ddefnydd ychwanegol. Roedd 19.3% (N=57) yn anghytuno, tra roedd 7.8% (N=23) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 140 | 47.3 |
| Cytuno i raddau | 66 | 22.3 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 23 | 7.8 |
| Anghytuno i raddau | 33 | 11.1 |
| Anghytuno'n gryf | 24 | 8.1 |
| Dim ateb | 10 | 3.4 |
| Cyfanswm | 296 | 100.0 |

## 3.15 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Cafwyd sylw pellach gan 135 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Angen bod yn gynhwysol / hygyrch i bobl anabl a phroblemau symudedd | 17 | 12.6 |
| Diogelwch rhai sy'n defnyddio'r llwybrau | 14 | 10.4 |
| Pwysig ar gyfer rhai grwpiau ee marchogwyr, beicwyr, plant | 14 | 10.4 |
| Cynnal a chadw | 11 | 8.1 |
| Edrych ar bob llwybr ar wahân / Dibynnu ar y llwybr / Ddim bob tro yn addas | 9 | 6.7 |
| Cost / Cyllid | 8 | 5.9 |
| Rhwydwaith cysylltu pentrefi / teithio llesol | 7 | 5.2 |
| Angen rhai llwybrau cerddwyr yn unig / Llwybrau ar wahanol i feicwyr / Rhwydwaith i feicwyr | 7 | 5.2 |
| Anghytuno gyda llwybrau aml ddefnydd / Risg fod y llwybrau ddim yn addas i neb / Problemau gyda'r math yma o lwybrau | 6 | 4.4 |
| Angen cadw natur y llwybrau | 6 | 4.4 |
| Bob llwybr i fod yn llwybr aml-ddefnydd / Cytuno gyda hyn | 5 | 3.7 |
| Anodd /Ymdrech mawr i wneud hyn / Rhwystrau i newid llwybrau presennol i fod yn aml-ddefnydd | 4 | 3.0 |
| Angen parchu eraill / Hybu hyn | 4 | 3.0 |
| Risg i'r amgylchedd naturiol | 3 | 2.2 |
| Hybu mynd allan / teithio llesol | 2 | 1.5 |

| | | |
|---|---|---|
| Effeithiau negyddol i dirfeddianwyr | 2 | 1.5 |
| Anghenion beicwyr / mountain bikers | 2 | 1.5 |
| Llwybrau aml-ddefnydd yn gallu bod yn anodd ei defnyddio ee i feicwyr neu yn brysur | 2 | 1.5 |
| Angen gwahanu beicwyr a cherddwyr ar y llwybrau ee 'separate lanes' | 2 | 1.5 |
| Codi sylw o'r llwybrau / hyrwyddo | 1 | 0.7 |
| Cynnal arolwg o ddefnydd presennol y llwybrau | 1 | 0.7 |
| Arall | 19 | 14.1 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad.  Enwadur = 135* | | |

## Defnydd o’r Rhwydwaith Lonydd Glas gan Farchogwyr (adran 4.6)

### 3.16 A ydych yn cytuno neu’n anghytuno y dylid caniatáu marchogaeth ar y rhwydwaith Lonydd Glas gyfan?

Roedd 54.4% (N=161) o’r ymatebwyr yn cytuno y dylid caniatáu marchogaeth ar y rhwydwaith Lonydd Glas gyfan. Roedd 18.9% (N=56) yn anghytuno tra roedd 23.0% (N=68) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | 99 | 33.4 |
| Cytuno i raddau | 62 | 20.9 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 68 | 23.0 |
| Anghytuno i raddau | 24 | 8.1 |
| Anghytuno’n gryf | 32 | 10.8 |
| Dim ateb | 11 | 3.7 |
| Cyfanswm | 296 | 100.0 |

### 3.17 Nodwch unrhyw sylw pellach ynghylch hyn

Cafwyd sylw pellach gan 92 o’r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o’r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cynnwys marchogaeth yn gymwysedig / yn gam positif / syniad da | 22 | 23.4 |
| Gall marchogaeth fod yn beryglus / anghyfforddus / ddim yn addas i eraill (ee cerddwyr, pobl anabl, beics) | 18 | 19.1 |
| Dim ychwanegol | 18 | 19.1 |
| Gall farchogaeth achosi tyllau ac ati i'r lonydd, gall farchogaeth arwain at fwy o waith cynnal a chadw | 7 | 7.4 |
| Diogelwch - Mae'n saff i farchogwyr rannu'r llwybrau / marchogwyr angen lle saff i fynd | 6 | 6.4 |
| Diffyg Parch / Rheolau neu côd ymddygiad ei angen ar gyfer defnyddwyr | 6 | 6.4 |
| Baw ceffylau yn broblem | 5 | 5.3 |
| Llwybrau angen bod yn addas | 5 | 5.3 |
| Arwyddion eu hangen | 5 | 5.3 |
| Unintended negative consequence ee agor ffyrdd i feiciau modur, affecting landscape when expanding paths | 4 | 4.3 |
| Llwybrau prysur | 3 | 3.2 |
| Syniadau am lwybrau addas ee traciau rheilffordd segur | 2 | 2.1 |
| Gwariant a Chyllid | 2 | 2.1 |
| Gall gynyddu defnydd y lonydd | 1 | 1.1 |
| Gall anghenion helpu eraill hefyd | 1 | 1.1 |
| Peth 'restrictions' ee amser | 1 | 1.1 |

| | | |
|---|---|---|
| Angen Ymgynghoriad | 1 | 1.1 |
| Amherthnasol | 1 | 1.1 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad.  Enwadur = 94* | | |



YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

## Sylwadau Pellach

### 3.18 Oes yna unrhyw faes gwaith sydd heb ei gyffwrdd yn ddigonol neu ddim o gwbl yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft hoffwch weld yn cael ei gynnwys?

Cafwyd ymateb gan 124 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cynnal a Chadw | 21 | 16.9 |
| Dim | 13 | 10.5 |
| Marchogion | 10 | 8.1 |
| Byrddau Gwybodaeth ac Arwyddion | 10 | 8.1 |
| Hygyrchedd i'r rhai sydd â phroblemau symudedd neu anabledd | 9 | 7.3 |
| Sbwriel, gwastraff cŵn, ymddygiad anghymdeithasol, effaith amgylcheddol | 8 | 6.5 |
| Mewnbwn lleol / Gwirfoddoli | 7 | 5.6 |
| Rhwystrau gan berchnogion tai a thir / Angen sicrhau mynediad parhaus i lwybrau cofrestredig | 6 | 4.8 |
| Cyllid | 6 | 4.8 |
| Ail gategorïo llwybrau / Edrych ar ffyrdd di-gategori | 6 | 4.8 |
| Hawliau tramwy / hawliau cerddwyr / beicwyr / beicwyr modur | 5 | 4.0 |
| Amserlenni / cynllun yn amwys / targedau | 5 | 4.0 |
| Cywirdeb Mapiau | 5 | 4.0 |
| Marchnata / Hyrwyddo | 3 | 2.4 |
| Llwybrau aml-ddefnyddiwr | 3 | 2.4 |
| Addysgu | 3 | 2.4 |
| Llwybrau beics | 3 | 2.4 |
| Ailagor / Cynyddu nifer / Uwchraddio llwybrau | 3 | 2.4 |
| Llwybrau rhwng pentrefi | 2 | 1.6 |
| Parcio | 2 | 1.6 |
| Diogelwch | 2 | 1.6 |
| Adran cerbydau modur yn wan | 1 | 0.8 |
| Perchnogaeth | 1 | 0.8 |
| Dog friendly' | 1 | 0.8 |
| Amherthnasol | 6 | 4.8 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 124* | | |

## 3.19 Oes yna unrhyw faterion yn cael eu cynnig gennym rydych yn teimlo fyddai yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg mewn unrhyw ffordd, ac yn benodol felly yn gallu effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio y Gymraeg neu a fyddai yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Cafwyd ymateb gan 80 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Na | 34 | 42.5 |
| Cadw / hybu / addysgu am enwau Cymraeg llefydd / Cymraeg gyntaf | 14 | 17.5 |
| Arwyddion ayyb dwyieithog | 13 | 16.3 |
| Hybu hanes ardaloedd ee drwy Son am hanes llefydd ar arwyddion ac ati | 4 | 5.0 |
| Saesneg yn cael ei drin yn llai ffafriol / Bias tuag at y Gymraeg | 3 | 3.8 |
| Llwybrau cysylltu cymunedau | 2 | 2.5 |
| Angen bod yn gynwysedig | 2 | 2.5 |
| Lleoliad yn ysbrydoli pobl i ddysgu am y diwylliant | 1 | 1.3 |
| Llwybrau hanesyddol yn rhan bwysig o gymunedau | 1 | 1.3 |
| Annog gwirfoddolwyr a phobl sy'n symud i ardal ddod at ei gilydd a helpu dysgu Cymraeg | 1 | 1.3 |
| Defnyddio pres i ddatblygu'r iaith ee mountain leaders etc dwyieithog | 1 | 1.3 |
| Defnyddio arwyddion i ddysgu Cymraeg | 1 | 1.3 |
| Gofal wrth gyfieithu | 1 | 1.3 |
| Arall | 5 | 6.3 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 80* | | |

## 3.20 Unrhyw sylwadau eraill?

Cafwyd ymateb gan 46 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyllid ac Adnoddau | 6 | 13.0 |
| Twristiaeth | 5 | 10.9 |
| Diolch / cefnogaeth | 5 | 10.9 |
| Iechyd / Teithio llesol | 5 | 10.9 |
| Nodi problemau gyda'r ddogfen , ei gywirdeb ac elfennau sydd heb gael eu cynnwys | 4 | 8.7 |
| Diogelwch | 4 | 8.7 |
| Cydweithio gyda grwpiau lleol / rhanddeiliaid / cynghorau cymuned | 4 | 8.7 |
| Manteision a phwysigrwydd llwybrau | 4 | 8.7 |
| Perchnogion tai / tir yn rhwystro pobl rhag defnyddio'r llwybrau | 3 | 6.5 |
| Angen rhwydwaith / Syniadau am rwydwaith / anghenion ychwanegol llwybrau | 3 | 6.5 |
| Angen bod yn gynwysedig i anghenion oll gan gynnwys beicwyr, defnyddwyr cadair olwyn, ceffylau | 2 | 4.3 |

| | | |
|---|---|---|
| Marchogaeth | 2 | 4.3 |
| Adolygu llwybrau sydd ddim ar gael | 2 | 4.3 |
| Effaith negyddol ehangu llwybrau presennol | 1 | 2.2 |
| Toiledau ar gael | 1 | 2.2 |
| Effaith peidio gallu defnyddio llwybrau presennol | 1 | 2.2 |
| Beiciau modur yn defnyddio'r llwybrau | 1 | 2.2 |
| Fandaliaeth | 1 | 2.2 |
| Angen map i ddangos llwybrau | 1 | 2.2 |
| Amherthnasol / Arall | 2 | 4.3 |
| Dim sylwadau eraill | 5 | 10.9 |
| *Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 46* | | |

## Paratowyd yr adroddiad yma gan

**Tîm Ymchwil a Dadansoddeg**
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

E-bost: ymchwil@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn: 01286 679619
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil



YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil